**Cyngor Cymuned Dolbenmaen**

**Nodiadau Cyfarfodydd**

| | |
|---|---|
| Dyddiad y cyfarfod | **4ydd Mai, 2023** |
| Presennol | John Jones (Cadeirydd), Richard Parry, Edward Evans (Bryncir), Michael Jones, Enid Egginton (Garndolbenmaen), Huw Pritchard, Sarah Jones, Raymond Jones (Pentrefelin),<br>Richard Williams, Gwilym Evans (Prenteg), Megan Lloyd Williams, John Till (Golan), Iddon Edwards, Gwenno Emlyn Huws, Jess Williams (Penmorfa), |
| Ymddiheuriadau | Clifford Williams (Garndolbenmaen), Stephen Churchman (Cynghorwr Sir Cyngor Gwynedd), June Jones (Cynghorydd Sir Cyngor Gwynedd). |
| Datgan Buddiant | Neb |
| **Penderfyniadau** | |
| Bwrdd Gwybodaeth Pentrefelin: | Cytunwyd bod yr amcan bris gan yr argraffydd lleol yn dderbyniol. Penderfynwyd ar orffeniad satin a gosod y bwrdd ar ongl yn hytrach na’n fertigol. |
| Llwybr yr hen dramffordd Cwmystradllyn | Mae’r llwybr yn rhan o Safle Treftadaeth y Byd, Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru. Mae’r Cyngor Cymuned yn awyddus i weld gwelliannau yn cael ei wneud fel ei bod yn bosib i’w gerdded ar ei hyd. Cysylltwyd yn barod gydag Uwch Swyddog Hawliau Tramor, Cyngor Gwynedd ynglŷn â’i gyflwr. Mae wedi datgan ei bod yn awyddus i gydweithio gyda’r Cyngor Cymuned a Pharc Cenedlaethol Eryri i ddod a’r rhwydwaith i safon. Penderfynwyd tynnu ei sylw at y |

mater eto. Clerc i gysylltu gyda'r Uwch Swyddog Hawliau Tramwy.

Bwlch y Moch, Prenteg:

Adroddwyd fod ceir dringwyr yn cael eu parcio dwy ochor i'r lôn dros Ŵyl y Banc wrth Fwlch y Moch ac yn creu sefyllfa perygl. Clerc i gysylltu gyda Chyngor Gwynedd a'r Parc Cenedlaethol.

Golan: Bin Baw Ci Llyn Cwmystradllyn:

Yn ystod mis Mawrth a mis Ebrill 2022 trafodwyd ymddygiad anghyfrifol rhai perchnogion cŵn, sy'n gadael y baw ar lawr neu'n gadael y bagiau ar lawr yn y maes parcio. Ofer bu'r ymdrechion i gael y Bwrdd Dŵr i osod biniau wrth y llyn. Adroddwyd nad yw'r sefyllfa wedi gwella a petai'r bagiau yn mynd i'r llyn, gall hyn gael effaith ar safon y dŵr. Penderfynwyd gwneud cais am gyfarfod safle gydag aelod o staff o'r Bwrdd Dŵr. Clerc i drefnu.

Sesiwn Anwytho Cynghorwyr Newydd:

Penderfynwyd cynnal y sesiwn anwytho nos Fercher, 24ain o Fai am 7 o'r gloch yng Nghanolfan Golan. Clerc i yrru copi o'r polisïau a Chanllaw'r Cynghorwr Da at y Cynghorwyr fydd yn mynychu.